



Enghraifft: **Fi, fy rheulu a'm cartref : Cam 1**

Asesu mewn grŵp o 3 - 5 hyfforddai

Tasg Lafar - Trafodaeth am Fi, Fy rheulu a'm cartref. Disgwylir ymatebion priodol i gyfres o gwestiynau syml, (cyflwynir cwestiynau am fanylion personol ar gychwyn cyfweiliadau ar bob thema a phob CAM) yn cynnwys enghreifftiau fel y canlynol:

Fi fy hun

Fy rheulu

Pwy wyt ti? Ble wyt ti'n byw?

Oes brawd/chwaer 'da ti?/Oes gen ti frawd/chwaer?

Be ydy dy gyfeiriad? Sut dy ydy o/e?

Beth ydy enw dy...?

Pa fath o dy ydy o/e?

Sawl brawd/chwaer sy 'da ti?/Sawl brawd/chwaer sydd gen ti?

Sawl stafell sy yn y tŷ/fflat... ?

Oes tad-cu/mam-gu 'da ti?/Oes gen ti daid/nain?

Sawl stafell molchi /llofft sy yno?

Oes gŵr/gwraig/partner/plant 'da ti?/Oes gen ti ŵr/gwraig/partner/plant?

Beth ydy dy gôd post?/dy rif ffôn?

Pwy ydy dy ffrind gorau? Ble mae e/hi'n byw?...

Tasg ddarllen : Fy nghartref. Chwarae gêm loto. Bydd y cyfarwyddiadau syml yn gofyn am ddarllen canllawiau.

GÊM LOTO Tŷ Ni.

Rhowch gerdyn chwarae i bob chwaraewr a rhowch 6 cownter i bob chwaraewr hefyd.

Cymysgwch y pecyn cardiau'n ofalus a'u gosod ar ganol y bwrdd. (Mae llun ystafell a disgrifiad ar bob cerdyn.)

Mae un person yn cymryd cerdyn o'r pecyn a darllen disgrifiad o'r ystafell.

Os oes gan hyfforddai lun yr ystafell ar ei gerdyn chwarae, mae'n gosod cownter ar y llun.

Mae'r cerdyn yn mynd i waelod y pecyn cardiau ac mae'r person nesaf yn codi cerdyn o'r pecyn.

Y cyntaf i osod 6 cownter ar ei gerdyn chwarae sy'n ennill y gêm. Rhaid gweiddi 'Tŷ LLAWN' cyn gorffen!

O.N. Gellir ehangu'r gêm trwy gynnig cardiau gyda llun ond heb ddisgrifiad i ymestyn sgiliau hyfforddeion.

Tasg Ysgrifennu :

FFURFLEN MANYLION
PERSONOL

Enw llawn:

Enw eich rhieni:

Dyddiad geni:

Man geni:

Cyfeiriad presennol:

Côd Post:

Rhif ffôn:

Rhif ffôn symudol:

Iaith gyntaf:

Ysgol Gynradd:

Ysgol Uwchradd:

Cwrs Prifysgol:

Enw eich ysgol profiad
dysgu:

Enw'r athro/athrawes
ddosbarth:



Enghraifft: Fi, fy rheulu a'm cartref : Cam 2

Asesu mewn grŵp heb fod yn fwy na phedwar mewn nifer a hefyd bob yn bâr ac yn unigol.

Tasg Lafar: Trafodaeth ar lafar yn cynnwys y cwestiynau a ganlyn:

Faint ydy dy oed? Pryd mae dy ben-blwydd? Ydy dy frawd/chwaer yn hŷn/iau na ti?

Ydy e/hi'n cael pen-blwydd ym mis...? Pa ddyddiad?

Pwy sy yn dy deulu di? Faint ydy oed dy...? Ble mae dy... yn byw/gweithio?


Oes gen ti gefnder/gyfnither? Beth yw enw dy ffrind? Beth ydy ei gyfeiriad/ei chyfeiriad?

Ydy e/hi'n byw'n bell o'ch tŷ chi? Sawl brawd/chwaer sydd ganddo/ganddi?

Fydd e/hi yn dy gyfarfod am goffi/beint weithiau? Ble?

Tasg Ddarllen a thrafod y goeden deulu isod bob yn bâr:

COEDEN DEULU



Tasgau darllen eraill:

Testun addas ar gyfer y thema i'w ddarllen ar goedd wedi cyfnod byr o ddarllen distaw, neu gêm ddarllen yn defnyddio cardiau teulu a chartref; rhannu pedwar cerdyn i bob un ac fe ddisgwylir i bob aelod o'r grŵp gyflwyno'r wybodaeth sy ar y cardiau i'r gweddill,

neu gêm casglu 4 cerdyn Teuluoedd Hapus gan ddarllen manylion aelodau'r teulu.

Darllen y cyfarwyddiadau chwarae ar goedd a chwarae gêm mewn grŵp o 4 am gyfnod.

Tasg Ysgrifennu (disgrifiadol):

Disgrifiwch eich ffrind yn fanwl, sut mae'n edrych, pa fath o ddillad mae'n wisgo, ble mae'n byw, gyda phwy, ble mae'n gweithio, diddordebau, beth mae'n hoffi/ddim yn hoffi ei wneud.

Rhowch hefyd unrhyw fanylion pellach diddorol amdano/i.

Enghraifft arall:

Tasg Ysgrifennu (dychmygol):

Wedi i chi drafod y goeden deulu gyda'ch partner, ysgrifennwch hanes y teulu. Dywedwch beth sydd yn digwydd i'r plant ar hyn o bryd - i Llinos a Geraint ac i Miriam, Benji, Jade a Daisy.



Enghraifft : Fi, fy ngheulu a'm cartref : Cam 3

Asesu bob yn bâr ac yn unigol.

Tasg Lafar:

Trafodaeth gyffredinol ac i ddilyn, trafodaeth ymestynnol yn cynnwys rhai o'r cwestiynau yma:

Ble cest ti dy eni? Pryd? Pryd cafodd dy frawd/chwaer/fab/merch ei (g)eni?

Wyt ti'n gwybod ym mha ysbyty cest di dy eni? Ble oeddet ti'n byw yn blentyn?

Ble'r wyt ti'n byw nawr? Beth yw dy gyfeiriad? Sut gartref sy gen ti? Oes gen ti ardd?

Ydy dy gartref yn agos i'r coleg? Sut siwrnai gest ti'r bore 'ma? Sut wyt ti'n teithio?

Fyddi di'n mynd allan dros y penwythnos? I ble? Gyda phwy? Beth wyt ti'n fwynhau

orau, mynd allan am bryd bwyd/mynd i glwb disgo/mynd allan i'r sinema? Disgrifia dy dŷ delfrydol.

Bydd nifer o gwestiynau pellach yn canolbwyntio ar brofiadau personol yn yr ysgol.

Tasg Ddarllen a thrafod unigol: cymharu rhinweddau'r ddau dŷ yn yr hysbysebion

Tai Ar Werth:

Tŷ teras, tair llofft ar werth yn Lôn y Farchnad. Cegin newydd ac ystafell ymolchi ar y llawr isaf, lolfa fawr, dwy lofft dda ac un llofft fechan. Man parcio y tu allan, iard yn y cefn. Angen gwaith ond digon o botensial! £110,000. Ffoniwch Jean : 01970 334412

Byngalo ar werth yn Llan y Dre. Cegin a lle i fwyta, lolfa braf, dwy lofft ddwbl ac un sengl, ystafell ymolchi fodern gyda bath a chawod. Garej a gardd fawr. £180,950. Cysylltwch â Jones, Jones a Jones, Cwmcaeryna. Ffôn: 0101 30456. (JJJ@estates.com)

Tasg ysgrifennu: Ysgrifennwch hysbyseb i werthu neu osod eich tŷ. Rhowch fanylion amdano a rhif neu gyfeiriad cyswllt.

Yna, ewch ati i lunio hysbyseb i werthu eich tŷ delfrydol...

Tasg ddarllen: Darllenwch y disgrifiad yma o Gastell Powis a'r gerddi -yn ddistaw ac yna ar goedd, gan wneud eich gorau i ddatrys ystyr geiriau newydd. Mae rhai cliwiau i'ch helpu! Yna, ewch ati i symleiddio'r cynnwys ar gyfer grŵp o ddysgwyr sy'n dod i ymweld â'r castell.

Castell Powis, Y Trallwng, Powys SY21 8RF

Castell o'r Canol Oesoedd sy'n codi'n ddramatig uwch y gerddi hardd. Mae'r gerddi yn fyd-enwog gyda choed yw (*yew*) anferth yn amgylchynu'r terasau. Bob blwyddyn mae'r garddwyr yn tocio'r (*to clip/prune*) coed ac mae'r tocion yn cael eu gyrru i labordai i greu Tamoxifen, sy'n gyffur (*drug*) ar gyfer brwydro cancr. Mae'r rhain yn cysgodi planhigion tyner a borderi llysieuol moethus. Cafodd yr ardd ei chynllunio ar ffurf gerddi yn yr Eidal a Ffrainc, gyda cherfluniau plwm gwreiddiol, (*original lead statues*) tŷ orennau a thŷ adar ar y terasau.

Crëwyd coedwig anffurfiol yn y gwyllt yn ystod y ddeunawfed ganrif. Adeiladwyd y castell tua 1200 yn wreiddiol; caer i Dywysogion Cymreig Powys oedd bryd hynny ac roedd yn cynnig golygfeydd gwych tua Lloegr.

Cafodd ei ail-fodelu a'i addurno dros y 400 mlynedd diwethaf gan adlewyrchu pwysigrwydd y teulu Herbert. Buont yn ychwanegu at y gwaith celf, lluniau a cherfluniau, dodrefn a thapestriau dros y canrifoedd. Yn Oriel Clive, gwelir trysorau o'r India. Priododd Edward Clive, mab Robert Clive (conquerwr India) â'r Fonesig Henrietta Herbert yn 1784, gan uno ystadau Powis a Clive. Mae'r Goets Fawr wych a welir yno yn dod o'r 19eg Ganrif. Hon yw'r goets harddaf sydd gan Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac mae'n ysblennydd iawn.

Ar agor bob dydd ganol haf, heblaw ar ddydd Mawrth.